

DARGANFYDDIADAU DIGIDOL

AR GYFER TRYDYDD SECTOR CYMRU



CYFLWYNIAD




Comisiynwyd ProMo-Cymru a Dotiau gan CGGC a Chanolfan Cydweithredol Cymru (CCC), gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, i ymchwilio a diffinio pa gefnogaeth sydd ei angen ar y trydydd sector yng Nghymru pan ddaw at ddigidol, ac yn arbennig i ystyried sut mae cefnogi sefydliadau'r trydydd sector i ymateb i'r angen brys am weithio a throsglwyddo gwasanaeth yn ddigidol sydd wedi gorfod digwydd oherwydd y pandemig Covid.

Mae'r gwaith yma wedi bod yn digwydd ar y cyd â thair rhaglen ddigidol arall wedi'i gomisiynu gan CGGC a CCC, a bydd canlyniadau'r rhain yn cael eu cyflwyno ar y cyd i Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

Mae sawl rhaglen trydydd sector digidol ar draws y DU gan gynnwys canlyniadau'r arolwg Sgiliau Digidol Elusennau cyhoeddwyd yn ddiweddar. Nid yw'r un o'r rhaglenni yma wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion trydydd sector Cymru ac/neu amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

Mae ProMo-Cymru wedi bod yn trosglwyddo gwasanaethau digidol ers dros 23 o flynyddoedd. Yn y cyfnod clo cyntaf bu ProMo-Cymru yn cynnal rhaglen cefnogi trosglwyddiad digidol i sefydliadau'r trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys cynnal hyfforddiant i gannoedd o sefydliadau a ni oedd un o'r cyntaf yn y DU i greu gwefan adnoddau digidol i'r trydydd sector gyda miloedd o sefydliadau wedi ei ddefnyddio. Nid oedd posib cynnal y gweithgaredd yma gan nad oedd ProMo-Cymru yn derbyn cyllid i wneud hynny. Gall ProMo-Cymru ddefnyddio'r profiad personol yma, o gynnig cefnogaeth ddigidol, i ddeall y gwahanol anghenion ar materion sydd yn codi mewn trosglwyddiad digidol ledled Cymru.

Mae'r prosiect darganfyddiadau yma wedi rhoi mewnwelediad i sut mae'r trydydd sector wedi bod yn cysylltu'n ddigidol gydag amrywiaeth ehangach o bobl (rhai oedd ddim yn cysylltu trwy ddarpariaeth wyneb i wyneb cynt) ac, mewn sawl achos, yn darparu gwasanaethau gwell.



EIN DULL



Cynhaliwyd proses darganfyddiad wedi'i sefydlu ar y Fethodoleg Dylunio Gwasanaeth (<https://www.designcouncil.org.uk/news-opinion/double-diamond-universally-accepted-depiction-design-process>)

Aethom ati i ganolbwyntio ar gyfnod darganfyddiad y broses Dylunio Gwasanaeth. Rydym yn ymwybodol bod Dylunio Gwasanaeth yn ddull eithaf newydd yng Nghymru ac rydym wedi ceisio cael cydbwysedd rhwng adrodd ymchwil traddodiadol a'r broses darganfyddiad. Y prif ffocws oedd sicrhau bod amrywiaeth o leisiau o'r sector yn cael eu clywed.

GWNAED HYN MEWN DWY FFORDD:

1. Cynnal cyfweiliadau gyda 19 o sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys cyrff seilwaith Cymru a'r DU; a
2. Arolygu 27 o sefydliadau eraill gyda holiadur ar-lein.

Roedd yn bwysig cael trawstoriad o ymatebion. Aethom at amrywiaeth o sefydliadau'r trydydd sector yn fwriadus, o rai gyda 250 o staff i grwpiau cymunedol lleol heb gyfansoddiad sydd yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr, yn cysylltu'n rhagweithiol gyda sefydliadau sydd yn gweithio gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, sefydliadau iaith Gymraeg gyntaf. Roeddem hefyd eisiau gosod profiad trydydd sector Cymru o fewn y DU. Gwnaethom benderfyniad i osgoi ceisio diffinio digidol i unrhyw un o'r sefydliadau oedd yn cymryd rhan.





Mewnwelediad Set 1

Roedd sawl sefydliad yn teimlo bod eu gwasanaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o bobl, gan gynnwys y rhai oedd ddim yn cysylltu gyda darpariaeth wyneb i wyneb cynt. Roedd cynhwysiad digidol yn bryder mawr o hyd, ond mae natur gwasanaethau cynhwysol yn fwy cymhleth nag yr oedd pobl wedi cydnabod cyn COVID.

Cyn COVID, roedd sawl un yn meddwl bod digidol yn gyfrwng fydda'n gallu cael ei ddefnyddio i ryddhau amser cyflenwi i bobl oedd angen mwy o gefnogaeth wyneb i wyneb. Roedd un o'r gweision sifil siaradom â nhw yn ei ddisgrifio fel:

"Mae'n cynnig dau fudd. Mae'n galluogi'r rhai sydd yn gallu helpu eu hunain ac yn creu amser i'r bobl sydd angen y gefnogaeth ychwanegol o wasanaeth wyneb i wyneb."

Ond, roedd ein darganfyddiad yn amlygu bod angen ehangu'r rhagdybiaeth eang yma i gynnwys trydydd budd – mae'n caniatáu mynediad i'r rhai sydd wedi'u cau allan ond yn gallu/barod i gysylltu gyda gwasanaethau digidol.

Mae grŵp trydydd sector sydd yn gweithio gyda phobl sydd ag anabledau dysgu wedi rhannu'r ffordd mae eu dealltwriaeth o ddigidol wedi newid yn ystod COVID a sut mae ymddygiad y rhai sydd yn defnyddio'u gwasanaeth wedi newid hefyd. Cyn COVID roedd y sefydliad yn cynnal digwyddiadau corfforol ond nid oedd rhai pobl yn mynychu gan eu bod yn poeni am yr effaith bosib ar eu budd-daliadau:

"Nid oedd yn bosib i rai oedd byw mewn rhai ardaloedd yng Nghymru i deithio atynt. Byddai gwneud hynny yn gallu cael effaith ar eu cais PIP, wrth ddangos eu bod yn gallu teithio'n annibynnol."

Bu'r grŵp yn trafod sut mae COVID wedi bod yn weithred gorfodi i alluogi trawsffurfiad digidol fydda ddim, o bosib, wedi digwydd fel arall:

"Felly cawsom y syniad o ddefnyddio'r porthau Amazon yma i ddod â phobl i mewn. Ac roedd pobl yn amheus, roedd pobl yn – 'fe wnawn ni os oes rhaid, ond nid ydym eisiau mewn gwirionedd'. Yna mae COVID yn digwydd ac nid oes dewis heblaw mynd ar Zoom os ydynt eisiau cyfathrebu a chael cwmni. Ac rydym wedi gweld newid enfawr yn ein haelodau, mae rhai pobl yn parhau i deimlo allan ohoni, ac nid ydym yn eu gweld. Ond gyda llawer ohonynt, aeth y ffigyrau reit i fyny (nifer o aelodau yn cynyddu)."

Amlygwyd ansawdd y ddarpariaeth a'r gallu i bobl gymryd yr awenau mewn ffyrdd hollol newydd hefyd:

“Ac mae aelodau yn cymryd mwy o reolaeth. Maent yn cynnal cyfarfodydd eu hunain. Cyfarfodydd nhw yw'r rhain, nhw sydd yn eu galw, gyda'u hagenda nhw... Nid oedd hynny'n digwydd cyn COVID.”

Mae'r cynnydd ym mhobl hŷn yn defnyddio digidol wedi cael ei gydnabod gan sefydliad arall sydd yn cefnogi gofalwyr:

“Nid oes neb wedi cwyno. Dywedodd menyw 79, pan fydd pethau yn dychwelyd i normal, roedd yn gobeithio y byddem yn parhau i ddarparu pethau'n ddigidol gan fod yn well ganddi hynny.”

Mae'r newid yma yn y ffordd mae digidol yn cael ei ganfod fel rhywbeth sydd yn galluogi cynhwysiant wedi cael ei adlewyrchu yn ein harolwg:

“I ni, fel sefydliad sydd yn cefnogi pobl sydd yn fyddar, dall neu anabl, mae digidol yn golygu nad oes rhaid iddynt fyw mewn byd sydd yn ddistaw neu'n dywyll. Mae'n golygu nad oes rhaid iddynt fod yn unig.”

“Roedd yn caniatáu i nifer o'r bobl ifanc rydym yn gweithio â nhw i gadw cysylltiad yn ystod y cyfnod clo. Roedd yn anodd iawn i gychwyn, gan fod hwn yn ffordd newydd o weithio a chydweithio, ond credaf fod pawb (gan gynnwys y staff a phobl ifanc) wedi addasu yn dda iawn ac wedi adnabod y buddion o weithio'n ddigidol.”

Mae'n hanfodol i nodi bod cynhwysiad digidol yn fater mawr sydd yn wynebu llawer o bobl. Ond, mae gwasanaethau wyneb i wyneb hefyd yn cau rhai pobl allan oherwydd y gallu i deithio, ymrwymadau amser a dewis personol.

Mae'r ddau sefydliad uchod wedi nodi achosion o waharddiad digidol sydd yn parhau i fodoli:

“I dorri stori'n fyr, mae materion gwaharddiad digidol yn ei wneud yn anodd iawn, ac mae angen ymchwilyr i ddod i ddangos sut i wneud hynny. Ond, y ffaith yw, nid ydym yn gwybod sut i wneud hyn gyda phobl ag anableddau dysgu dofn.”

“Nid ydym wedi cynnig hyfforddiant i ofalwyr, ond mae 60 o dabledi wedi cael eu rhannu. Roedd rhywun yn mynd allan i ddangos yn syml sut i ddefnyddio'r tabledi yma - a dyma'r gorau y gallwn ni ei wneud yn ystod y pandemig.”

Pam ofynnodd y sefydliad eiriolaeth anabledd dysgu os byddant yn dychwelyd i'r gwasanaeth fel yr oedd cyn COVID, dywedasant:

"Dychwelyd i fel yr oedd pethau? Na, nid allem wneud hynny."

Mae datganiadau fel hyn yn dangos newid yn sut mae'r trydydd sector yn bwriadu trosglwyddo gwasanaethau a disgwyliadau'r bobl i fedru cael mynediad i'r gwasanaethau yma. Mae angen i wasanaethau cael eu trosglwyddo mewn sawl ffordd er mwyn bod yn gynhwysol, fel wyneb i wyneb, digidol a chymysg o'r ddau.



Mewnwelediad Set 2

Mae'r trydydd sector yng Nghymru wedi gweld newid enfawr yn y ffordd mae'n trosglwyddo gwasanaethau digidol. Cyn COVID, dim ond llond llaw o wasanaethau yng Nghymru oedd yn darparu gwasanaethau digidol.

Pan ofynnem 'Beth oedd digidol yn ei feddwl i'ch sefydliad chi sefydliadau cyn COVID?' ateb y sefydliadau oedd:

"I ddweud y gwir, dim."

"Nid oeddem wedi gwneud llawer o gwbl mewn gwirionedd."

"Roedd yn parhau i ddibynnu ar broses lle'r oedd rhaid cael caniatâd cyfarwyddwr ac uwch weithredwr, ac roedd rhaid i'r ddau arwyddo darn o bapur, yna roedd rhaid ffeilio ychydig o bethau a chael copïau digidol."

"Defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol i arddangos yr hyn rydym yn ei wneud, cysylltu ychydig gyda'r gymuned efallai er mwyn ymgynghori a hysbysu am yr hyn oedd yn digwydd. Ond nid oedd unrhyw fath o seilwaith digidol."

"Roedd yn anodd peidio meddwl 'o diar, trueni nad oes gennym y system rydym ni wir ei angen fel ein bod yn gallu gwneud mwy."

55%

**CYN COVID ROEDD 55% O'R YMATEBWYR
YN GRADDIO EU DEFNYDD O DDIGIDOL O
'CYFFREDIN' I 'GWAEL IAWN'.**

Yn Mewnwelediad Set 3 rydym yn gweld sut mae hyn wedi newid yn sylweddol.



Mewnwelediad Set 3

Yn dilyn y pandemig cychwynnol, fe welsom newid mawr yn y ffordd mae sefydliadau yn teimlo am ddigidol. Roedd yr ymateb ar y cyfan yn bositif iawn, gyda rhai eithriadau sylweddol. Mae'r nifer o sefydliadau sydd yn cynnig gwasanaethau digidol, ac sydd yn bwriadu parhau i wneud hynny, wedi codi y tu hwnt i unrhyw ddisgwyliadau posib cyn COVID.

Pan ofynnwyd 'beth mae digidol yn ei feddwl i'ch sefydliad ar ôl COVID?' dyma ddywedodd y sefydliadau:

"Nid oeddem wedi gwneud llawer o gwbl, mae'n od meddwl am y peth gan ei fod mor sylfaenol i'n gwaith nawr. Mae digidol yn golygu meddwl mwy am wasanaethau digidol... i ail-fframio'r hyn roeddem yn bwriadu gwneud beth bynnag, a throï'r gwasanaethau yma yn fwy hygyrch."

"Mae wedi newid. Cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan oedd digidol i ni. Ond nawr dyma'r ffordd rydym yn cysylltu ac yn cyfathrebu gyda gofalwyr gan nad yw'n bosib eu cyfarfod wyneb i wyneb."

"Wel, ers COVID, rhywbeth gwahanol, gwahanol iawn."

"Cur pen fel arfer."

Pan gynhaliwyd arolwg o sefydliadau'r trydydd sector am yr hyn mae digidol yn ei feddwl iddyn nhw, cawsom amrywiaeth o atebion o 'cyfathrebiadau', 'hygyrchedd digidol' i 'systemau TG'. Mae'r math yma o atebion yn adlewyrchu ymchwil cynt (cyn COVID) wedi'i gynnal gan Cassie Robinson o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn edrych ar sut mae'r trydydd sector yn deall digidol:

<https://cassierobinson.medium.com/what-were-learning-about-how-the-sector-understands-digital-2ef0a07c2a68>

Roedd sawl sefydliad (sefydliadau seilwaith gyda gwasanaethau digidol wedi'u datblygu'n dda ran amlaf) yn trafod digidol fel 'diwylliant' ac yn 'canolbwyntio ar y defnyddiwr' pan ofynnwyd beth oedd ystyr digidol iddyn nhw. Yn Mewnwelediad Set 8 rydym yn trafod sut mae sefydliadau seilwaith ledled y DU wedi creu a rhannu iaith o gwmpas digidol.

92.3%

MAE 92.3% O'R SEFYDLIADAU AROLYGWYD WEDI DWEUD Y BYDDANT YN PARHAU I GYNNIG MATH O WASANAETH DIGIDOL YN DILYN COVID.

I adeiladu ar y gwaith da sydd wedi digwydd yn ystod COVID mae'n hanfodol i greu iaith ddigidol sydd yn cael ei rannu yng Nghymru.



Mewnwelediad Set 4



Tra bod buddiannau sylweddol i gofleidio digidol, mae yna anfanteision hefyd. Neges gyson gan y sefydliadau oedd yr angen am gyngor digidol a datrysiadau TG. Roedd yna broblemau digidol ac roedd TG yn tynnu amser i ffwrdd o drosglwyddo gwasanaethau. Roedd yn glir hefyd bod sefydliadau wedi bod yn datrys (neu'n ceisio datrys) yr un problemau ac roedd y dyblygiad mewn ymdrech ar draws y sector a'r diffyg ymateb wedi'i gydlynu yn broblem sylweddol.

Roedd y sefydliadau trydydd sector yn glir yn eu barn nad oeddent yn gallu cael mynediad i adnoddau dysgu cyffredin:

“Nid wyf wedi gweld dim o gwmpas eto, beth mae pawb wedi'i ddysgu o'r 18 mis yma, neu pa bynnag hir sydd wedi bod ers symud ein gwasanaethau ar-lein, a sut gallem ni rannu'r hyn dysgwyd? Byddai hynny'n ddefnyddiol iawn. Mae pawb wedi bod yn cychwyn o'r cychwyn.”

Roedd teimlad o rwystredigaeth glir am orfod creu gwasanaeth digidol heb yr arbenigedd na'r cyllid angenrheidiol:

“Mae'r heriau yma yn bodoli o hyd, a heb eu datrys eto: Ydym ni'n dewis yr offer a'r cyfuniad cywir o offer ar gyfer y gwasanaeth newydd yma rydym yn ei ddatblygu? Mae wedi bod yn anodd dewis yr offer addas ar gyfer gwahanol agweddau, bod hynny'n postio, cymuned ar-lein neu alwadau fideo, ac yn tynnu popeth at ei gilydd. Nid yw'n ymddangos fel bod llawer o gyngor i sefydliadau bach gyda chyllid cyfyng iawn, fel y manylion am sut i sefydlu pethau heb orfod talu am 30 o wasanaethau gwahanol. Felly mae hynny wedi bod yn her yn nhermau newid ein gwasanaethau i un digidol.”

Roedd sefydliad arall yn gytûn bod angen rhannu datrysiadau ac ymchwil mewn dull unol a systematig:

“Mae'n gwneud synnwyr i gychwyn rhannu ychydig o'r gallu yma rhyngom a chreu ryw fath o ymchwil defnyddiwr. Yn sicr, mae rhywfaint o hyn yn wir i'r mwyafrif (nid oes angen i bawb gyflawni ymchwil penodol), fel dylunio ymchwil defnyddiwr, llyfrgell neu rywbeth. A phatrymau gwasanaeth hefyd, rhai fydd yn debyg i bawb. Dyna'r math o bethau sydd ei angen i sicrhau bod gwell cysylltiad. Ac i weithio'n fwy cydweithredol, credaf mai dyma sydd ei angen, dyma y dylai ni fod yn anelu amdano.”

Nodwyd bod Technoleg Gwybodaeth (sydd yn is-set ddigidol) yn her fawr i rai sefydliadau. Dywedodd sefydliadau eu bod yn poeni am wario gormod, neu beidio gwario digon, o arian a gorfod delio gyda chanlyniadau negyddol penderfyniad nad oeddent yn gyfforddus ag ef yn y lle cyntaf. Dywedodd un sefydliad eu bod wedi prynu 3 gliniadur llai nag 3 mlynedd yn ôl, ac roedd angen eu newid yn barod gan eu bod yn hen bellach:

“Mae pawb yn cael gliniadur. Nid oeddem wedi cyllido digon am liniadur addas. Beth ydy gliniadur addas ac i bwy allem ni ofyn?”

Roedd y neges hon yn cael ei rhannu gan sefydliad arall aeth ati i amlygu'r broblem o ddewis offer TG ar gyfer symud i fodel trosglwyddo cymysg:

“Pa rai yw'r gorau i brynu? Neu, a ddylai ni fod yn gwario 500 punt ar hyn pan mae yna opsiwn 50 punt? Felly mae angen y pecyn i fedru gwneud hynny. Cael swit cynadleddau o galedwedd, cael taflunydd a chyfrifiadur un pwrpas i fewngofnodi i'r meddalwedd cynhadledd, offer i roi sain, camera i weld gweddill yr ystafell, y math yma o bethau? Mae gwneud hyn fel clytwaith. Mae gen ti liniadur da, ac mae gennym we gamera 'crap', ok, hynny'n iawn? Wel, beth am gael gwe gamera. Yna mae gennym we gamera eithaf da, gliniadur eithaf da, ond nid allem eu clywed, neu mae acwsteg yr ystafell yn ddrwg. Rydym wedi gwneud tipyn go lew o ddigwyddiadau ymgynghori... oedd yn bwydo i mewn i Lywodraeth Cymru ac mae gwneud y math yma o bethau wedi bod bron yn amhosib.”

Roedd y broblem o ddyblygiad a sefydliadau yn ansicr os ydynt yn gwneud y dewisiadau cywir yn thema gyson yn y cyfweiliadau a'r arolwg. Mae'n ymddangos fel bod yr amser a'r cyllid gellir ei wastraffu (er yn anodd ei fesur) yn sylweddol ac mae'n cael effaith negyddol ar drosglwyddo gwasanaethau presennol a rhai newydd.

69.2%

ROEDD 69.2% O'R SEFYDLIADAU AROLYGWYD YN DWEUD Y BYDDANT YN CHWILIO AM GYLLID I DDATBLYGU GWASANAETHAU DIGIDOL.

Roedd yn amlwg, yn y trydydd sector, bod yr amser oedd yn cael ei wastraffu ar ddatblygu gwasanaethau digidol ar ben eu hunain, heb ffynhonnell gwybodaeth TG canolog, yn rhwystredigaeth i sawl un siaradwyd â nhw. Mae'r amser treuliwyd a'r dyblygiad ar draws sefydliadau yn achos pryder.



Mewnwelediad Set 5

Wrth drosglwyddo gwasanaethau digidol mae sawl sefydliad trydydd sector yng Nghymru wedi ymdrin â materion nad oeddent wedi gorfod gwneud cynt, ac nid oes sefydliadau seilwaith gydag arbenigedd trosglwyddiad digidol perthnasol. Amlygwyd pryder sylweddol yn ymwneud ag amddiffyniad digidol yn ystod yr ymchwil. Mae ProMo-Cymru yn credu bod hyn yn bryder cyffredin sydd wedi codi ers COVID ac mae yna berygl sylweddol o niwed i unigolion. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o faterion newydd yn codi, yn debyg i'r ymddangosiad o amddiffyniad digidol, sydd angen ymateb cyd-drefnedig i sicrhau diogelwch pobl a throsglwyddiad gwasanaethau effeithiol. Mae ProMo-Cymru eisoes wedi amlygu'r angen am amddiffyniad digidol gwell i Lywodraeth Cymru.

Roedd sawl sefydliad wedi nodi yn yr arolwg bod amddiffyniad yn bryder wrth drosglwyddo gwasanaethau yn ddigidol. Dywedodd un sefydliad bod y diffyg eglurder am amddiffyniad digidol wedi achosi iddynt stopio'r mwyafrif o'u gwasanaethau digidol er iddynt gael rhai llwyddiannau. Dywedasant:

"Mae pawb yn dweud y byddant yn adeiladu yn ôl yn well, ond wedi mynd yn ôl i fel oeddem ydym ni."

Datgeliad o natur ddifrifol oedd y rheswm am hyn, trwy sianel ddigidol bersonol oedd ddim yn cael ei fonitro. Gorfododd hyn i'r sefydliad i roi'r gorau i drosglwyddiad digidol. Dyma oedd ganddynt i ddweud am y peryglon posib o symud i ddigidol heb sefydlu prosesau amddiffyn digidol newydd:

"I roi esiampl o'r hyn rydym yn ei ddarganfod, mae gennych chi blentyn sydd yn gyrru neges i gyfrif cyfryngau cymdeithasol personol aelod staff, am 11 y nos, ar ôl i'r person yna fod yn gweithio drwy'r dydd. Un, mae'n anaddas, gan mai cyfrif personol ydyw. Ond hyd yn oed os bydda hwn yn gyfrif cyfryngau cymdeithasol gwaith, rydym wedi dechrau cyflwyno yn ddiweddar, nid yw'r aelodau staff unigol yn cadw at y ffiniau sydd wedi'u gosod."

Mae llawer o bryderon amddiffyn yn gysylltiedig â'r sefyllfa uchod (ac mae'r sefydliad dan sylw wedi cyfeirio atynt). O brofiad personol ProMo-Cymru, rydym yn credu bod hwn yn broblem gyffredin yn y trydydd sector. Mae perygl sylweddol yn bodoli, nad oes cefnogaeth i'r rhai sydd yn gwneud cais brys am help oherwydd diffyg systemau a phrosesau. Gall hyn arwain at niwed difrifol i unigolyn. Mae'r mater yma wedi cynyddu yn ei bwysigrwydd ers tyfiant trosglwyddiad digidol yn ystod COVID. Mae gan sefydliadau amcanion da, ond mae yna berygl mawr o niwed os nad yw'r gwaith o gyfeirio at y broblem hon yn digwydd.

Efallai nad yw'r sefydliadau sydd yn draddodiadol wedi arwain ar amddiffyn wedi'u cyfarparu i ymdopi gyda'r mater oherwydd diffyg profiad yn y maes. Nododd ProMo-Cymru mai amddiffyniad oedd y mater pwysicaf a gododd, ond bydd yna amrywiaeth o faterion newydd eraill fydd angen cefnogaeth gydlynol i'w goresgyn. Roedd un sefydliad seilwaith wedi amlygu'r newidiadau enfawr posib mewn cynnal gweithgareddau codi arian traddodiadol a'r effaith caiff hyn ar y trydydd sector. Er nad oedd y mater yma yn ffitio gofynion yr ymchwil, bydd angen adnabod ac adolygiad parhaol o hyn ac amrywiaeth o faterion eraill sydd yn codi.



Mewnwelediad Set 6

Efallai bydd sefydliadau Cymraeg yn ymdrechu i gael mynediad i gyllid neu gefnogaeth ar gyfer digidol gan nad oes gan Gymru seilwaith cefnogaeth ddigidol swyddogol, nac eglurder ymarfer da digidol, mor gryf â Lloegr a'r Alban. Nid yw Cymru (am resymau nag allem eu canfod) wedi derbyn cyllid arloesedd digidol gan Loteri Genedlaethol y DU, cyllid oedd ar gael yn Lloegr yn 2020-2021. Derbyniodd sefydliadau'r Alban gefnogaeth dda trwy waith SCVO.

Roedd yn glir o'n hymchwil desg mai ychydig iawn o sefydliadau yng Nghymru oedd â mynediad i gyllid datblygiad digidol cyn COVID. Bûm yn adolygu cynlluniau cyllido digidol y trydydd sector, y rhai mwyaf yn y DU fel Comic Relief, ac ni ymddangosai fel bod unrhyw sefydliadau Cymraeg wedi bod yn llwyddiannus (heblaw am sefydliadau'r DU sydd yn gweithio yng Nghymru). Nododd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol y posibilrwydd nad oedd ceisiadau am y gronfa ddigidol ymysg y trydydd sector yng Nghymru a Gogledd Iwerddon wedi'u datblygu cystal â'r rhai o'r Alban a Lloegr. Gwelwyd hefyd, yn ystod COVID, bod Cronfa Gymunedol y Loteri Fawr a chyllidwyr eraill wedi creu cronfeydd sylweddol i gefnogi trawsffurfiad digidol cyflym yn y trydydd sector. Ond, nid oedd y cyllid yma, cynhaliwyd gan The Catalyst, ar gael yng Nghymru. Nid ydym wedi gallu cadarnhau'r rhesymau am amodau'r cyllid.

Cyfwelwyd â dau sefydliad mawr yn nhrydydd sector Cymru. Roedd y ddau yn nodi diffyg adnoddau neu gefnogaeth pan ddaw at flaenoriaethu digidol yn y sefydliad. Dywedodd un:

"Rwyf angen deall sut i gyflwyno'r achos i'r Uwch Dîm Rheoli. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth o ddigidol. Maent yn hapus i dderbyn pethau newydd, ond o ble ydw i'n cael tystiolaeth? Sut ydw i'n gwneud achos busnes? Nid yw 5 mlynedd yn flaenoriaeth, goresir 12 mis nesaf yw'r flaenoriaeth."

Ymchwiliwyd y sawl a dderbyniodd yr hyfforddiant digidol cynigwyd i sefydliadau'r trydydd sector gan Catalyst yn y DU (yn cael ei gynnal gan CAST), a dangosai mai swyddogion cyfathrebu oedd yn cael y gwaith o wneud popeth digidol mewn sefydliadau maint canolog i fawr. Roedd sawl sefydliad, cyn COVID, yn meddwl am ddigidol fel cyfathrebu digidol. Gan fod sefydliadau yng Nghymru yn llai nag rhai Lloegr a'r Alban mae'n debygol iawn nad oes ffocws sylweddol ar ffyrdd o weithio digidol ymysg yr uwch arweinwyr.

Dywedodd y sefydliad trydydd sector mwyaf bûm yn holi (gyda dros 250 o weithwyr) nad oeddent yn gallu fforddio arbenigwr mewn dylunio digidol (yn canolbwyntio ar y defnyddiwr):

“Mae'n debyg mai dyma yw'r canlyniad o weithio mewn sefydliadau llai, gan nad ydych chi byth yn cael y cyfle i arbenigo mewn pethau am fod rhaid gwneud popeth. Felly, yn nhermau pethau fel dylunio gwasanaeth, yn ein sefydliad ni mi fyddai'n... wel, dwi'n meddwl y byddai'n... wel, yn enwedig fy un blaenorol, oedd hanner y maint eto... nid oeddech chi'n debygol iawn o gael rhywun oedd â'r teitl swydd dyluniwr gwasanaeth, nid oedd posib fforddio hyn, ni fydddech wedi gallu fforddio talu am hynny. Felly, i fi, clywed gan bobl eraill sydd yn gwneud gwaith mewn sefydliadau sydd yn enfawr mae'n siŵr, fel y llywodraeth. Ac mae'r math yma o wybodaeth ac arbenigedd mewn maes penodol fel dylunio gwasanaeth yn fuddiol iawn, gan fod y wybodaeth yma yn anodd ei gael mewn unrhyw ffordd arall.”

Bûm yn siarad hefyd a sefydliad trydydd sector mawr yn y DU (sydd yn gwneud gwaith yng Nghymru) oedd wedi trawsffurfio'n ddigidol yn sylweddol yn ystod COVID. Dywedasant:

“Llwyddom i sicrhau cyllid ar gyfer arloesiad digidol, ac roedd hyn yn ein helpu i addasu ychydig o'n cynnyrch, ein dysgu digidol...”

“Ond rydym hefyd wedi datblygu ein holl adnoddau addysgiadol fel pecynnau digidol. Felly mae digidol bellach yn golygu incwm, mae'n golygu cynaladwyedd. Mae hefyd yn golygu newid, gan ein bod wedi newid y ffordd rydym yn trosglwyddo gwasanaethau yn sylweddol.”

Roedd hyn yn arddangos yr effaith bosib gall buddsoddiad digidol ei gael ar gynnaladwyedd sefydliadau'r trydydd sector.

Mae'n amlwg bod angen adolygu'r ffordd mae cefnogaeth ddigidol yn y trydydd sector yn cael ei ariannu. Heb seilwaith cefnogol mae perygl y bydd sefydliadau trydydd sector Cymru, o faint canolog i fawr, yn llusgo ymhellach y tu ôl i'w tebyg yn Lloegr a'r Alban.



Mewnwelediad Set 7

Pan ofynnwyd pwy neu beth roedd pobl â ffydd ynddo gyda chyngor digidol, roedd y mwyafrif yn dweud bod ganddynt hyder mewn blogiau neu bobl roeddent yn adnabod.

Tra bod hyn yn ddarganfyddiad eithaf newydd, mae yna oblygiadau sylweddol posib o sut gall ymarfer da ymestyn ar draws y sector. Roedd sawl un o'r sefydliadau cyfwelwyd yn nodi bod ganddynt ffydd mewn rhai sefydliadau gyda chyngor digidol. Roedd y ffynonellau dibynadwy yma yn cynnwys CGGC, CCC, ProMo-Cymru a Catalyst. Ond, dywedodd y mwyafrif o'r rhai cyfwelwyd y byddant yn gofyn i ffrindiau mewn sector tebyg, neu bobl sydd wedi ennill ffydd gan rannu blogiau a chyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd. Amlygwyd y fformat 'nodiadau wythnos' yn arbennig o berthnasol gan ddau sefydliad. Mae'r rhain yn flog byr fel arfer, yn crynhoi datblygiadau neu fethiannau gwaith o ddydd i ddydd.

Dyma grynoded un sefydliad am y ffordd maent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol:

"Felly, rwy'n dilyn rhwydwaith o bobl ar Twitter, sydd wedi ei gasglu at ei gilydd dros flynyddoedd o ddefnyddio'r platfform. Mae yna rai ffynonellau gwybodaeth, sydd yn trydar neu yn cael eu trydar gan rywun arall, ac rwy'n meddwl, ok iawn, mae gen i ffydd yn y wybodaeth yma, gan fy mod i'n gwybod pethau am y person yma, ble maent wedi gweithio, y pethau maen nhw wedi'i wneud, yr hyn maent yn ei rannu am y pethau maent wedi'i wneud."

Trafodwyd y ffurf blogio 'nodiadau wythnos' hefyd:

"Rwy'n gweld sut y gall hyn ymddangos yn od, i fod yn rhannu'r hyn rwy'ti'n gwneud yn fewnol mor gyhoeddus, ond mae'n helpu i ysbrydoli pobl eraill i rannu gwaith eu hunain hefyd. Ac rwy'n credu bod cael ryw fath o gydnabyddiaeth am hyn yn fath o fudd anuniongyrchol, fel iawn, dyma rywun sydd yn gwneud rhywbeth diddorol iawn. A chredaf, os byddwn i'n wynebu'r broblem yma, efallai dylwn i fynd i siarad â nhw gan ei fod yn ymddangos fel bod gennym broblem debyg?"

Er bod yna ddulliau mwy ffurfiol i gefnogi ymarfer da fel Cymunedau Arfer, bydda addasu'r diwylliant digidol o ddysgu cyffredin gyda blogio a rhwydweithiau anffurfiol yn gallu cefnogi'r lledaeniad cyffredin o ymarfer da.



Mewnwelediad Set 8

Mae angen creu dealltwriaeth gyffredin bod trawsffurfiad digidol yn golygu newid diwylliannol yn y ffordd mae'r trydydd sector yn gweithio. Mae'r newid diwylliannol yn gallu cysylltu'n glir i bolisi Llywodraeth Cymru bresennol, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r trydydd sector mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod pobl yn rhan o gyd-ddylunio gwasanaethau.

Daeth yn amlwg o'r cyfweiliadau a'r arolwg bod digidol yn derm mor eang fel bod gwahaniaeth mawr yn y ffordd mae sefydliadau yn deall ei ddefnydd. Gwnaethom benderfyniad i osgoi ceisio diffinio digidol i unrhyw un o'r sefydliadau oedd yn cymryd rhan. Siaradom a thri sefydliad seilwaith o ledled y DU oedd â gorchwyl digidol oedd yn cefnogi'r trydydd sector, yn ogystal â Chanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CGCD) newydd Cymru wedi'i sefydlu i gefnogi'r sector cyhoeddus. Roedd pob un o'r sefydliadau yn glir bod angen newid diwylliannol i'r ffordd mae sefydliadau yn gweithio er mwyn addasu digidol, a bod angen iaith gyffredin er mwyn creu'r newid yma.

Mae'r CGCD yng Nghymru wedi cychwyn rhaglen i gefnogi trawsffurfiad digidol yn y sector cyhoeddus. Mae'n arbennig o nodedig bod y CGCD wedi datblygu Safonau Gwasanaeth Digidol i Gymru fel bod dylunio yn canolbwyntio ar y defnyddiwr yn gallu cael ei osod i mewn i wasanaethau cyhoeddus.

<https://gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru/blwch-offer/safonau-gwasanaeth-digidol/>

Mae'r safonau hefyd yn sicrhau ei fod yn amlygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r iaith Gymraeg. Er nad yw pob safon yn addas ar gyfer y trydydd sector, mae yna gyfleoedd clir i ddysgu o'r dull yma. Yn enwedig y budd o greu iaith gyffredin.

SCVO gyflwynodd y dysgu mwyaf nodedig ar gyfer datblygiad digidol y trydydd sector. Mae SCVO yn gyfatebol i CGGC yn Yr Alban. Roedd SCVO wedi amlygu'r gwaith eang oedd ei angen er mwyn gallu helpu'r sector i ddeall sut i drosglwyddo gwasanaethau hyblyg sydd yn canolbwyntio ar y bobl. Cawsom wybod am yr amser treuliyd i ymgorffori'r newid:

“Cychwynnodd symudiad digidol yn Yr Alban 10 mlynedd yn ôl ac mae'r pandemig wedi effro cymaint mwy o bobl yn sydyn iawn...”

“Roedd gan SCVO un o'r timau mwyaf, tîm o 10 yn gweithio mewn Digidol. Roedd angen cael y bobl gywir, y tîm cywir. Tîm gydag ethos ac ymgyrch. Angerdd am newid.”

Trafodwyd y pwyntiau ymarferol o SCVO yn dod yn sefydliad mwy digidol. Cawsom wybod bod y staff yn dîm o 100 a bod gosod ymarfer digidol dda ar draws y sefydliad wedi cymryd dros 3 mlynedd:

“Mae'r sefydliad ar y cyfan yn gorfod deall ymarfer digidol dda er mwyn gallu dylanwadu'r sector.”

Mae'r NCVO yn profi trawsffurfiad tebyg gyda Thîm Digidol, Data a Thechnoleg fedrus iawn sydd yn gyrru ac yn dylanwadu newid yn y sefydliad ac yn rhannu ymarfer da gyda'r sector. Dywedasant:

“Mae yna ddealltwriaeth dda ar lefel arweiniol ac ar lefel staff.”

Mae'r sgysiau gyda sefydliadau seilwaith trydydd sector yng Nghymru yn dangos yn glir nad yw'r broses yma wedi digwydd eto. Dywedodd un sefydliad seilwaith:

“Mae gennym daith hir o'n blaen pan ddaw at ddigidol.”

Roedd sefydliad seilwaith arall yn trafod ei ran yn deall anghenion sawl hapddaliwr gyda throsglwyddo cynnyrch digidol:

“Rydym yn y cyfnod casglu gwybodaeth, i geisio deall beth mae'r hapddalwyr gwahanol eisiau fel cynnyrch, yna'r cyfnod nesaf ydy darganfod os yw hynny'n bosib mewn un cynnyrch.”

Wrth greu iaith gyffredin ddigidol rydym yn credu y bydd sgysiau gyda hapddalwyr yn fwy effeithiol a bydd y defnyddiwr yn cael cynnyrch digidol gwell yn y pen draw. Mae yna berygl sylweddol na fydd rhaglenni digidol newydd mor effeithiol yng Nghymru, oherwydd diffyg profiad sefydliadau seilwaith mewn datblygu prosiectau digidol yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, ac efallai bydd rhaid dibynnu ar ymgynghoriad eang sydd yn canolbwyntio ar gasglu data yn hytrach nag mewnwelediad. Mae angen i sefydliadau seilwaith fuddio o sefydliadau sydd â phrofiad sylweddol o drosglwyddo digidol yn nhrydedd sector Cymru, a dealltwriaeth ddyfnach o sut i gynnal ymarferiadau cwmpasu prosiectau digidol.



Mewnwelediad 9



Mae'r gallu i weithio dros ffiniau daearyddol wedi golygu cynyddiad incwm i fentrau gymdeithasol sydd yn gwerthu gwasanaethau.

Roedd hyblygrwydd sefydliadau bach yn amlwg iawn mewn un fenter gymdeithasol siaradwy â nhw:

“Roeddem yn ffodus, ffodus iawn yn ystod y pandemig, er ein bod yn meddwl y byddem mewn cyflwr drwg, mewn gwirionedd, ac i'n mawr syndod, llwyddom i symud llawer o'n gwasanaethau ar-lein, lle'r oedd galw mawr amdanynt.”

Roedd y sefydliad yn gallu tyfu ei incwm masnachol yn sylweddol wrth werthu gwasanaethau ledled y DU. Cyn hynny, dim ond yn De Cymru roeddent wedi bod yn masnachu ond maent bellach wedi cael profiad sylweddol o werthu gwasanaethau ledled y DU yn datblygu model cyllid mwy cynaliadwy. Roedd yr arolwg hefyd yn amlygu'r gallu i weithio ar draws ffiniau daearyddol yng Nghymru, DU ac yn fyd eang, a oedd wedi bod yn rhwystr cynt. Rhannodd un sefydliad ystyr digidol iddyn nhw:

“Gallu cyfarfod pobl ar-lein, gallu cynnal cyrsiau hyfforddiant gyda phobl ledled y byd, a mynychu digwyddiadau ledled y byd.”



Mewnwelediad 10



Mae angen gosod nod realistig o sut mae digidol da yn edrych i sefydliadau'r trydydd sector. Nid adeiladu app neu ddefnyddio set rith realiti yw hyn (i'r 99%). Yn y cyfweiliadau bûm yn siarad ag un sefydliad a gymerodd ran mewn 'Hop Dylunio' cynhaliwyd gan Catalyst a ProMo-Cymru, ac mae hwn yn cael ei osod fel esiampl o ymarfer da sydd yn berthnasol i'r mwyafrif o sefydliadau trydydd sector yng Nghymru.

Mae'r cyfweiliad yma yn dangos sut roedd y sefydliad yn gallu addasu ei wasanaeth presennol i mewn i gyfrwng newydd o drosglwyddo. Profwyd a throsglwyddwyd gwasanaeth newydd dros gyfnod, un na fyddai'n bosib cynt gyda throsglwyddiad wyneb i wyneb. Roedd y sefydliad hefyd yn defnyddio dulliau newydd i gasglu mwy o ddata er mwyn asesu eu gwasanaeth. Dywedasant:

"Roedd yna gyfnod bach pan roddem yn meddwl 'Bydd rhaid i ni gau' ond yna roedd pawb yn mynd i gyfarfodydd fideo ac ati..."

"Felly cychwynnom sesiwn peilot, gwahodd ychydig o blant ac ychydig o'r craidd wirfoddolwyr. Dywedom nad oeddem yn gwybod sut y byddai hyn yn gweithio, ond fedrwn chi ein helpu?..."

"Rhoddom dro arni ac roedd yn gweithio'n dda iawn, nid mor dda â sesiynau wyneb i wyneb, dwi'n meddwl bod llawer o bobl wedi darganfod hyn. Ond yn nhermau dim byd - neu ei gynnal ar-lein, nid oedd yn ffôl. Roedd yn anhygoel..."

"Felly, ceisiodd sefydlu sesiwn darllen, gan ein bod wedi ystyried cynnal un mewn person yn y gorffennol. Ond mae'n eithaf anodd i wneud hynny wyneb i wyneb. Os ydych chi angen i wirfoddolwr ddarllen gyda phlentyn am 20 munud, nid allech chi ofyn i wirfoddolwr deithio am 20 munud, darllen am 10 munud ac yna dychwelyd adref eto..."

"Mae yna rai ohonynt sydd ddim yn darllen o gwbl yn ystod yr wythnos gartref (plant sydd yn cymryd rhan). Efallai nad oes ganddynt lyfrau hyd yn oed. Felly do, mae wedi bod yn stori llwyddiant o'r pandemig..."

"Felly, gwahoddwyd llond llaw o rieni i'r cyfarfodydd, a'u gwahanu i ystafelloedd (rhith) ar wahân. Gofynnwyd cwestiynau fel - pam ydych chi'n gyrru eich plant i'n darpariaeth? Beth ydych chi'n feddwl am y ddarpariaeth? Y math yna o beth. Ac roedd yr ymateb yn un positif dros ben..."

Er nad yw'r sefydliad yn defnyddio geirfa fel 'dylunio yn canolbwyntio ar y defnyddiwr' neu 'chwim', mae'r dulliau yma yn amlwg yn eu gwaith. Roedd y sefydliad wedi cyfeirio'n benodol bod mynychu'r hyfforddiant cynhaliwyd gan ProMo-Cymru a'i gyllido gan Catalyst, wedi bod yn bwysig i'w dysgu. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd cefnogaeth ar gyfer y trydydd sector, a byddem yn dangos hwn fel esiampl gellir ei ddyblygu ar draws y trydydd sector gyda buddsoddiad ychwanegol.

ARGYMHELLION

- 1.** Mae angen cefnogi'r trydydd sector i ddatblygu gwasanaethau digidol. Mae angen buddsoddiad sylweddol i greu/mwyhau seilwaith y gefnogaeth ddigidol yn y trydydd sector.
- 2.** Mae angen i sefydliadau seilwaith trydydd sector traddodiadol Cymraeg, a sefydliadau Cymraeg gyda phrofiad trosglwyddiad digidol sylweddol yn y trydydd sector, weithio â'i gilydd i greu iaith gyffredin yn ymwneud â digidol ac i drosglwyddo rhaglenni cydgysylltiedig yn y trydydd sector yng Nghymru.
- 3.** Mae angen unioni gyda Safonau Gwasanaethau Digidol i Gymru, gydag addasiad priodol ar gyfer y Trydydd Sector, gan gyfeirio'n benodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Iaith Gymraeg.
- 4.** Mae angen adnoddau a hyfforddiant digidol fydd yn helpu sefydliadau i ddeall a gwneud defnydd o'r ffyrdd digidol o weithio.
- 5.** Mae angen mwy o gymorth pendant ar gyfer sefydliadau maint canolig a mawr yn y trydydd sector, neu'r rhai sydd wedi'u hadnabod fel sefydliadau angor allweddol. Byddai unrhyw raglen yn buddio o ddysgu'r rhaglen Catalyst.
- 6.** Dylid annog dull 'gweithio yn agored' ar draws y trydydd sector gan ddefnyddio blogio a'r fformat 'nodiadau wythnosol' yn enwedig gydag unrhyw raglenni sydd yn ymwneud â digidol.
- 7.** Mae angen osgoi'r defnydd o jargon terminoleg ddigidol. Dylid ystyried yn ofalus sut mae digidol yn gallu cysylltu i syniadau mae'r trydydd sector yn gallu ei ddeall (o bosib) fel datblygu gwasanaethau gyda phobl a chyfranogiad.
- 8.** Mae yna angen mawr am gyngor TG, a rheoli caffael TG o bosib, ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru (sydd â diddordeb). Gellir ariannu hyn yn rhannol trwy raglen aelodaeth daledig. Byddem yn argymhell adolygiad pellach o fodeli sydd yn cael eu cynnal gan eraill.
- 9.** Mae angen canllawiau mwy clir ar gyfer y trydydd sector ar sut olwg sydd ar ddigidol da mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, safonau hygyrchedd a chynrychiolaeth.
- 10.** Mae angen deall pa is-sectorau o fewn y trydydd sector sydd angen y gefnogaeth fwyaf yn nhermau addasiad digidol i ganiatáu gallu trosglwyddo mwy o becynnau cefnogaeth wedi'u teilwro.
- 11.** Mae angen dull mwy cyfunedig i gysylltu gyda chynlluniau cefnogaeth ddigidol eraill ledled y DU.

12. Nid yw sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru wedi cael yr un mynediad i gyllideb datblygu ddigidol gan arianwyr y DU. Mae angen pwyso ar gyllidwyr i ddeall datblygiad unrhyw seilwaith digidol (sydd yn ymddangos) yng Nghymru ac i chwilio am baredd gyda chenhedloedd eraill y DU.
13. Mae angen creu mwy o ofodau a chyfleoedd i sefydliadau gael dysgu gan ei gilydd a rhannu profiadau.
14. Mae angen sicrhau bod hyfforddiant digidol Cymraeg ar gael.

Ariannir gan Lywodraeth Cymru
Comisiynwyd gan CGGC a Chanolfan Cydweithredol Cymru
Cynhaliwyd yr ymchwil gan ProMo-Cymru a Dotiau

CASGLIAD

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am gyllido'r gwaith yma ac i CGGC a CCC am ein comisiynu. Mae ProMo-Cymru yn edrych ymlaen at weithio ar y cyd â CGGC a CCC yn datblygu seilwaith cefnogaeth ddigidol yng Nghymru. Diolch i'r holl sefydliadau fu'n cymryd rhan yn ein cyfweiliadau a'r arolwg.

Nod y dull yma oedd deall bodolaeth Cymru mewn perthynas â'r trydydd sector ehangach yn y DU. Hoffem gydnabod cefnogaeth Catalyst fu'n rhannol gyfrifol am alluogi ProMo-Cymru i gefnogi cannoedd o sefydliadau trydydd sector Cymru wrth iddynt drosglwyddo gwasanaeth digidol yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Tra hefyd yn ein cysylltu gyda sefydliadau ledled y DU sydd yn gweithio yn y maes cefnogaeth ddigidol ar gyfer y trydydd sector.

Mae tensiwn cynhenid wedi bod yn ein defnydd o fethodoleg Dylunio Gwasanaeth (sydd ddim yn gyfarwydd iawn yng Nghymru) wrth ysgrifennu adroddiad mwy traddodiadol gyda chyfres o argymhellion. Rydym wedi ceisio cydbwyso hyn gan sicrhau bod lleisiau'r trydydd sector yn cael ei glywed.

Fe welsom, yn ystod y broses darganfod, ychydig o'r gwaith sylweddol sydd wedi digwydd i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i'r rhai sydd eu hangen. Fe welsom y methiannau hefyd a meysydd sydd heb gael eu cyfeirio atynt, ond mae yna gyfle clir i ddatblygu gwasanaethau gwell sydd yn cael ei gyd-ddylunio gyda phobl yng Nghymru.